

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL CYLLID (Rhif 2)

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru ("y Senedd") os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.
2. Cyflwynwyd y Bil Cyllid (Rhif 2) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 2 Rhagfyr 2025. Mae'r Bil ar gael yn: [Bil Cyllid \(Rhif 2\) - Biliau Seneddol - Senedd y DU](#).

Amcan(ion) Polisi

3. Bwriedir i'r Bil wneud datganiad cyllideb Llywodraeth y DU yn gyfraith, i'r graddau y mae'n ymwneud â threthiant. Cafodd y datganiad cyllideb ("y Gyllideb") ei wneud gan Ganghellor y Trysorlys ar 26 Tachwedd 2025. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yn y Gyllideb yw cyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas ag ystod eang o bolisiâu, yn enwedig ym meysydd adnewyddu trethi blynyddol, cyflwyno cynigion treth newydd a chynnal gwaith gweinyddu'r system dreth. Hanfod y Bil yw sut y bwriedir rhoi amcanion polisi trethiant y Gyllideb ar waith.
4. Mae'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn yn ymwneud ag un elfen o amcanion polisi'r Bil yn unig - y darpariaethau yn y Bil sy'n creu math newydd o dreth incwm - sef treth incwm eiddo. Amcan polisi datganedig y dreth yw sicrhau bod incwm o eiddo yn cael ei drethu'n decach.

Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan Drysorlys EF. Mae'n rhoi'r Gyllideb ar waith ac yn cwmpasu mesurau gan gynnwys treth bersonol, treth gorfforaeth, treth anuniongyrchol, gweinyddu trethi a mesurau eraill.
6. Fel y nodir uchod, dim ond un elfen o'r Bil y mae angen ei hystyried o dan Reol Sefydlog 29 – cymalau 6 i 8 ac Atodlenni 1 a 2 sy'n creu treth incwm eiddo newydd sydd wedi'i heithrio o'r trefniadau treth incwm presennol, a nodir yn Neddf Treth Incwm 2007 ("Deddf 2007"). Ar hyn o bryd mae 7 math o dreth incwm ac mae'r Bil yn mewnosod math newydd yn y fframwaith hwn – sef treth incwm eiddo. O ganlyniad i hyn, mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cynnig treth incwm eiddo newydd yng Nghymru sy'n atgynhyrchu'r ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â'r dreth incwm - cyfradd treth incwm

Cymru ond, mewn perthynas â threth incwm eiddo. Mae cymalau 6 i 8 (ac atodlenni 1 a 2) yn y Bil yn ceisio dod â'r dreth incwm eiddo yn gyfraith.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

7. Rwyf yn credu bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r cymalau a nodir isod, i'r graddau y maent yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig:
 - Cymal 8, ac
 - Atodlen 2 Rhan 2, paragraffau 2 i 4.
8. Mae cymal 8(1) yn darparu bod Atodlen 2 o'r Bil yn gwneud darpariaeth i gyfraddau eiddo Cymru gael eu pennu gan y Senedd. Mae cymal 8(2) yn darparu y bydd cymal 8 ac Atodlen 2 yn dod i rym ar y cyfryw ddiwrnod y mae'r Trysorlys yn ei bennu drwy reoliadau. Mae cymal 8(3) yn darparu bod gan y diwygiadau a wneir gan gymal 8 ac Atodlen 2 effaith mewn perthynas â'r flwyddyn dreth a bennwyd gan reoliadau a wnaed gan y Trysorlys, ac ar gyfer blyneddoddd treth dilynol. Mae cymal 8(4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r flwyddyn dreth a bennir gan reoliadau o dan gymal 8(3) fod ar ôl y flwyddyn dreth 2026-27 a dechrau ar y dyddiad a benodwyd gan reoliadau o dan gymal 8(2) neu ar ôl hynny. Mae cymal 8(5) yn darparu y caiff rheoliadau o dan gymal 8 bennu gwahanol ddiwrnodau at wahanol ddibenion.
9. Mae paragraff 2 o Atodlen 2 yn diwygio adran 6B(1A) o Ddeddf Treth Incwm 2007 (cyfraddau Cymru) (fel y'u mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 1 o'r Bil) er mwyn darparu (pan gychwynnir Atodlen 2 gan reoliadau a wneir gan y Trysorlys o dan gymal 8) fod Cam 3 yn adran 6B(1A) o Ddeddf Treth Incwm 2007 yn cyfeirio at y cyfraddau Cymreig a bennwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn dreth honno (os oes rhai) at ddibenion cyfrifo cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol eiddo Cymreig. Mae paragraffau 3 a 4, ac yn benodol paragraff 4(2) yn diwygio adran 116D(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn darparu'r pŵer i'r Senedd basio penderfyniad sy'n pennu cyfradd Gymreig at ddibenion cyfrifo cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol eiddo Cymru o dan adran 6B(1A) o Ddeddf Treth Incwm Cymru 2007.

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

10. Nid yw Llywodraeth y DU o'r farn bod ar Gymal 6 ac Atodlen 1 angen cydsyniad deddfwriaethol. Ym marn Llywodraeth y DU, mae ar Gymal 8 ac Atodlen 2 Rhan 2 angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol.
11. Rwyf yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymal 8 a'r paragraffau yn Atodlen 2 Rhan 2 a bennir ym mharagraff 7 uchod.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil

12. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â threthiant incwm ar incwm eiddo, ac mae darparu pŵer ychwanegol i'r Senedd i amrywio cyfraddau treth incwm eiddo Cymru yn gyson ag egwyddorion treth Llywodraeth Cymru a'r amcan strategol o fwrw ymlaen â'r achos dros ddatganoli treth mewn ffordd glir a sefydlog.
13. Mae'r Bil yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl y gellir eu gwneud drwy deddfwriaeth sylfaenol yn y Senedd yn unig.

Goblygiadau Ariannol

14. Nid oes unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru na'r Senedd sy'n gysylltiedig â'r Bil nac â gwaith cyflawni gweinyddol CThEF ar y newidiadau y mae'n eu gwneud.
15. Byddai arfer y pŵer i amrywio cyfraddau treth incwm Cymru yn arwain at ychwanegiad neu ostyngiad mewn refeniw treth o gyfraddau treth incwm Cymru gyda chanlyniadau i Gyllideb Llywodraeth Cymru.

Casgliad

16. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â phwnc y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn y Bil hwn gan y DU gan y bydd yn darparu'r unig opsiwn o bŵer ychwanegol i'r Senedd i bennu cyfraddau treth incwm Cymru mewn perthynas ag incwm eiddo. Rwyf yn argymhell, felly, y dylai Senedd Cymru gefnogi'r cynnig a rhoi ei chydsyniad.

Mark Drakeford AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
16 Rhagfyr 2025